

# Y Cyfarfod Llawn

---

Dyddiad y cyfarfod:  
**Dydd Mawrth, 24 Chwefror 2015**

Amser y cyfarfod:  
**13.30**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



---

## Agenda

(248)v3

---

### **1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### **2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

**3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Treth ar waredu i safleoedd tirlenwi (30 munud)**

**5 Trefn trafod y gwelliannau i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (5 munud)**

**NDM5697 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 – 25

b) adran 1

c) Teitl Hir

### **6 Dadl ar Setliad yr Heddlu 2015–16 (60 munud)**

#### **NDM5699 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2015–2016 (Setliad Terfynol – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu).

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2015.

#### **Dogfen Ategol**

[Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol \(Rhif 2\) 2015–2016 \(Setliad Terfynol – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu\)](#) (Saesneg yn unig)

### **7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2013–14 (60 munud)**

#### **NDM5698 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2013–14.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2015.

#### **Dogfen Ategol**

[Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2013-14](#)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cymeradwyo agweddau cryfach ar addysg yng Nghymru, ond yn gresynu at y ffaith bod safonau cyffredinol yn dal i fod yn wan ac:

a) bod angen i ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref i rannu arferion gorau gydag ysgolion gwannach i roi hwb i safonau; a

b) bod angen i Lywodraeth Cymru wella mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r ddarpariaeth ohono ar gyfer athrawon newydd a phrofiadol.

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gyflwr unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru y mae angen gwella pob un ond dau ohonynt.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod safonau mewn ysgolion cynradd wedi gostwng eleni, gyda chyfran yr ysgolion cynradd sydd â safonau da neu ragorol yn disgyn o saith ym mhob 10 i ychydig dros chwech ym mhob 10.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod disgyblion yn cael anhawster o ran defnyddio sgiliau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm mewn tua hanner ein hysgolion.

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru feithrin gallu'r gweithlu addysg i roi polisiâu allweddol ar waith mewn modd effeithiol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd.

### **Gwelliant 6 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai athrawon ym mhob rhan o Gymru gael mynediad i arfer gorau.

### **8 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 25 Chwefror 2015